Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Glantwymyn, Powys I Gylchfan Mallwyd, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo'r gwaith o osod wyneb newydd a gwaith cynnal a chadw hanfodol yn cael ei wneud ar y darn hwnnw o Gefnffordd Glantwymyn i Fallwyd (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yn Siroedd Powys a Gwynedd o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U4651 yng Nghemaes ym Mhowys i fynedfa ac allanfa ddeheuol cylchfan yr A458 ym Mallwyd yng Nghwynedd.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro canlynol, y codir arwyddion priodol ynghylch eu hyd a'u lled, yn dod i rym yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 25 Chwefror 2013 tan 16:30 o'r gloch ar 22 Mawrth 2013 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol.

Effaith y Gorchymyn fydd:-

i. gosod terfyn cyflymder dros dro o naill ai 40 mya neu 30 mya, ac eithrio ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys, ar y darn penodedig o'r gefnffordd;

ii. gosod terfyn cyflymder dros dro o 10 mya, ac eithrio ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys, pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn penodedig o'r gefnffordd; a

iii. gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio cerbydau'r gwasanaethau brys, rhag goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn penodedig o'r gefnffordd.

Er na ddisgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (Detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Traffig Dros Dro', '2013').

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A470 Trunk Road (Cemmaes Road Roundabout, Powys to Mallwyd Roundabout, Gwynedd) (Temporary Traffic Restrictions and Prohibition) Order 2013

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to safeguard the road user and the workforce whilst resurfacing works and essential maintenance are carried out on that length of the Cemmaes Road to Mallwyd Trunk Road (A470) (hereinafter referred to as "the trunk road") in the Counties of Powys and Gwynedd from the centre point of its junction with the U4651 road at Cemmaes in Powys to the southern access and egress of the A458 roundabout at Mallwyd in Gwynedd.

The following temporary restrictions and prohibition, the extent of which will be signed accordingly, are expected to come into force intermittently from 08:00 hours on 25 February 2013 until 16:30 hours on 22 March 2013 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order will be to:-

i. impose temporarily either a 40 mph or 30 mph speed limit, other than for emergency service vehicles, in the specified length of the trunk road;

ii. impose temporarily a 10 mph speed limit, other than for emergency service vehicles, during convoy working in the specified length of the trunk road, and;

iii. temporarily prohibit all vehicles, other than emergency service vehicles, from overtaking during convoy working in the specified length of the trunk road.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: 'Legislation', 'Subordinate Legislation', 'Local Statutory Instruments', 'Temporary Traffic Orders', '2013').

M D BURNELL
Orders Branch, Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE